



MYNEGI BARN

Mae'n hawdd mynegi'ch barn am rywbeth. Dechreuwch eich brawddeg drwy ddweud beth rydych chi'n ei hoffi neu ddim yn ei hoffi ac yna gorffennwch drwy ddefnyddio 'achos' ac ansoddair.

Rwy'n hoffi...	Dydw i ddim yn hoffi...	Mae'n well 'da fi...
Rwy'n mwynhau...	Dydw i ddim yn mwynhau...	Fy hoff...
Rwy'n dwlu ar...	Mae'n gas gyda fi...	Yn fy marn i...
Rwy'n cydweld â...	Teimlaf yn gryf ...	Heb os nac oni bai...
Cytunaf...	Anghytunaf gyda ...	Yn bendant...
		Does dim amheuaeth...

Dyma rai ansoddeiriau i chi eu defnyddio. Peidiwch â defnyddio'r un rhai drwy'r amser, cofiwch ddefnyddio amrywiaeth!

achos mae'n....	hwyl	ofnadwy
achos mae e'n...	wych (gwyh)	ddiflas (diflas)
achos mae hi'n...	smart	annheg
achos maen nhw'n...	gyffrous (cyffrous)	dwp (twp)
cytunaf...	fendigedig (bendigedig)	ddrwg (drwg)

ddiddorol (diddorol)	wastraff amser (gwastraff)	ysbrydoledig
flasus (blasus)	wastraff arian (gwastraff)	heriol
anhygoel	anodd	ddanteithiol (danteithiol)
hawdd	ddrud (drud)	boblogaidd (poblogaidd)
rhad	warthus (gwarthus)	ymlaciol



MYNEGI BARN

anniddorol
blentynnaidd (plentynnaidd)
afiach
ddryslyd (dryslyd)
boendod (poendod)

Gallwch wella sut rydych chi'n mynegi'ch barn os ydych chi'n rhoi rheswm dilys pam rydych chi'n hoffi neu ddim yn hoffi rhywbeth.

Rwy'n mwynhau chwarae rygbi achos rwy'n hoffi cadw'n heini.

Dyma rai esiamplau.

Bwyd / Food

achos mae'n dda i fi
achos mae bwyta'n iach yn bwysig
achos dw i'n hoffi bwyta ffrwythau
achos dydy e ddim yn dda i fi
achos dylwn i fwyta'n iach
achos rwy'n hoffi bwyta bwyd sbeislyd

Ysgol / School

achos rwy'n hoffi'r athro
achos mae siarad dwy iaith yn sgil
achos rwy'n hoffi dysgu ieithoedd newydd
achos rwy'n hoffi arbrofion
achos hoffwn i fod yn nyrs
achos rwy'n mwynhau ysgrifennu



MYNEGI BARN

Ffasiwn / Fashion

achos mae'r tywydd yn boeth
achos mae'r tywydd yn oer
achos rwy'n hoffi gwneud chwaraeon
achos rwy o'r farn bod dilyn y ffasiwn yn bwysig
achos hoffwn i edrych fel David Beckham
achos mae'n mynd gyda phopeth

Hamdden / Leisure

achos rwy'n hoffi cadw'n heini
achos rwy'n gallu nofio'n dda iawn
achos rwy'n hoffi chwarae gyda ffrindiau
achos rwy'n hoffi dŵr
achos hoffwn i fod fel Usain Bolt
achos rwy wrth fy modd yn darllen llyfrau Harry Potter



MYNEGI BARN

Mae cytuno, anghytuno a gwneud sylwadau perthnasol yn bwysig wrth gael sgwrs. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwrando'n astud ar beth mae eraill yn ddweud fel eich bod yn gallu ymateb.

Cytunaf gyda...
Anghytunaf gyda...
Rydyn ni o'r farn...

Mae Mam yn cytuno
Mae Mam yn anghytuno

Rwy'n meddwl bod...
Rydyn ni o'r farn bod...
Mae Mam yn meddwl bod...
Mae Dad yn meddwl bod...
Mae fy chwaer yn meddwl bod...
Mae fy mrawd yn meddwl bod...

Mae gan bawb farn o blaid neu yn erbyn am bob math o bynciau.

Os ydych chi'n rhoi eich barn cofiwch er mwyn gallu perswadio pobl i gytuno â chi bod angen ychwanegu rheswm a thystiolaeth.

I fynegi eich barn yn glir, mae'n bwysig:

- defnyddio termau mynegi barn
- rhoi rheswm i gefnogi eich barn
- cryfhau eich rhesymau gyda thystiolaeth a safbwyntiau gan eraill i gefnogi eich barn.